Newyddion Bethlehem

www.gwe-bethlehem.org Gwaelod-y-garth Rhifyn Diwedd Haf 2010

Bethlehem yn ymateb yn chwim i apêl Pacistan

Mae £1000 wedi ei anfon yn enw'r eglwys tuag at liniaru effeithiau'r llifogydd difäol sydd wedi taro Pacistan. Trosglwyddwyd yr arian ar fyrder drwy Gymorth Cristnogol yn dilyn cyfarfod brys o'r diaconiaid oedd ar gael yn ystod un o'r Suliau ym mis Awst. Os nad ydych eisoes wedi cyfrannu'n uniongyrchol i'r achos teilwng hwn, gallwch wneud hynny drwy law'r trysoryddion.

Ym Mlaenau Gwent

Annoeth fyddai dechrau enwi'r holl aelodau o Fethlehem welwyd ar lwyfan ac ar sgriniau teledu o'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy. Llongyfarchiadau i bawb o'r aelodau gyfrannodd tuag at ein mwynhad o'r brifwyl eto eleni.

Drws Agored

Nos Iau Medi 23 am 7.30 bydd y 'Drws' yn agor ei dymor a hynny yng nghwmni **Glenys Roberts**, enillydd y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Dewch yn llu i wrando ar Glenys yn trafod ei cherddi.

Diolch

*Diolchwn i **Sian Calow**, merch y diweddar Idris ac Eluned Hughes, am ei rhodd eithriadol o hael tuag at Eglwys Bethlehem. Yn ôl Sian, "dyna fyddai dymuniad dad".*

Siec a Swper Haf

Ar un o nos Suliau Gorffennaf, daeth criw da ynghyd i gymryd rhan yn ein Swper Haf a phenllanw blwyddyn o godi arian at Gronfa Leol Motor Neurone.

Cafwyd orig ddifyr o eitemau amrywiol, megis pedwarawdau, unawdau ac un ddeuawd o jôcs! ***(Mae'r lluniau ar dudalen 4).***

Roedd yr adloniant o safon uchel iawn - o ddatganiad bendigedig ar y piano gan Siwan (heb anghofio Dylan) i Delwyn Sïon a'i gitâr. Roedd y bwrdd bwyd o dan ei sang, a gwelwyd sawl un yn sleifio heibio am ei bumed platiaid!

Cyflwyno'r Siec

Braint oedd cael teulu'r diweddar Idris a Luned Hughes yn bresennol yn y Swper - Sian Calow (merch Idris) a Gwyneth a Helen. Fe gofiwch i Idris ddioddef o'r clefyd Motor Neurone yn ystod ei flynyddoedd olaf.

Yn ystod y swper, pleser oedd cael Alun i gyflwyno'r cyfanswm anrhydeddus o £3,000 i ddwylo cadeirydd y gangen leol o'r elusen. Roedden nhw wedi eu syfrdanu gan ein cyfraniad.

Diolch i bawb a gefnogodd y gwahanol weithgareddau codi arian dros y flwyddyn ddiwethaf, fel bod modd i ni roi rhodd mor sylweddol eto eleni.

Yr Ystafell Fyw

I fyny bo'r nod ar gyfer 2010/11, oherwydd ar fore Sul y swper Haf, cynhaliwyd y bleidlais i ddewis elusen y flwyddyn i ddod. Yr elusen a ddewiswyd ydy 'Yr Ystafell Fyw' sef prosiect Wynford Ellis Owen ar gyfer canolfan i ddioddefwyr alcohol a chyffuriau eraill yng Nghaerdydd, fydd yn agor yn Ebrill 2011.

Wrth groesawu'r newydd, meddai Wynford, "Diolch i bawb am bleidleisio dros gefnogi Yr Ystafell Fyw Caerdydd fel elusen eglwys Bethlehem am y flwyddyn 2010/11. Mae cael cefnogaeth aelodau fy eglwys fy hun yn golygu sut gymaint i mi. Diolch ichi bob un".

Cyfeiriadau:

Gweinidog: Y Parchedig Ddr R. Alun Evans, Y Wenallt, 8 Heol Elmgrove, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2BW ***Ffôn:*** 02920 520 854 ***e-bost:*** ralun.evans@virgin.net

Ysgrifennydd Bethlehem: Rhys Dafis
Ffôn: 029 20 89 13 60 ***e-bost:*** rhysdafis@aim.com

Te i'r Digartref yn Eglwys y Tabernacl Caerdydd

Aelodau Bethlehem sydd yn gyfrifol am y Suliau canlynol:-

26.9.10

12.12.10

27.2.11

15.5.11

Fel y gwyddoch mae angen tîm o 4. Beth am gynnig eich enw i'r "banc?"Mi fyddai Gwenno yn falch iawn o glywed gennych ar 029 20224087 neu hughes_alun@sky.com

Ein chwaer eglwys ...

Mae ein chwaer eglwys, Bethel, Caerffili, yn trefnu taith gerdded ym Mis Hydref o Fethel i Fethlehem ac yn ein gwahodd i ymuno. (Dyddiad i'w gadarnhau).

Yna ar nos Iau, Tachwedd 11eg, maen nhw'n mynd i berfformiad o'r Snowman yn Nghanolfan y Mileniwm. Rhaid cael enwau a thaliad llawn erbyn Medi'r 19eg 2010. Holwch **Heulwen Jones**.

Cylch Cadwgan

Medi 17eg am 8.00

Y Prifardd John Gwilym Jones

"Llenyddiaeth mewn Emyn"

yn Y Ganolfan,

Tabernacl, Efail Isaf

Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig

Stondin Gacennau

Fel y gwyddoch mae Stondin Gacennau yn y Festri ar fore Sul y Cymun. Gofynnwn yn garedig i bob ardal gymryd tro i gynnal y Stondin fel a ganlyn: -

Medi 12fed	**Yr Eglwys Newydd**
Hydref 10fed	**Gwaelod-y-garth a Ffynnon Taf**
Tachwedd 28ain	**Creigiau a Phentyrch**
Rhagfyr 12 (hwyr)	**Radur a Dwyrain Caerdydd**
Ionawr 9fed	**Gorllewin Caerdydd**
Chwefror 13eg	**Yr Eglwys Newydd**
Mawrth 13eg	**Gwaelod-y-garth a Ffynnon Taf**
Ebrill 10fed	**Creigiau a Phentyrch**
Mai 8fed	**Radur a Dwyrain Caerdydd**
Mehefin 12	**Gorllewin Caerdydd**

Os <u>nad</u> oes awydd coginio arnoch, hwyrach yr hoffech roi cyfraniad. Mae'r holl arian a wneir ar y Stondin yn mynd tuag at Yr Ystafell Fyw, ein helusen am 2010 -11.

Teledu Annibynwyr Cymru

Mae Undeb yr Annibynwyr wedi pwrcasu tair uned o offer teledu - camera, sain, golygu - ar gost o £30,000, arian a dalwyd i'r fenter gan CWM (Churches World Mission). Y bwriad yw paratoi ffilmiau byrion (3-5 munud) i'w rhoi ar y we ar: www.annibynwyr.tv

Mae RAlun eisoes wedi awgrymu'r thema 'Dechrau yn y Gwaelod' i ni i'w ddatblygu. Gall hynny fod yn gyflwyniad o'r capel a'i weithgarwch elusennol; gall fod yn fedydd neu'n briodas; gall fod yn waith yr Ysgol Sul; gall fod yn gofyn a yde ni yn gwasanaethu'r gymuned - ein perthynas a'r ysgol leol ac a'n cymdogion; gall fod ...

Y mae yn ein plith sgriptwyr, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr, ymchwilwyr, cyflwynwyr, gwyr-camera, golygyddion a thechnegwyr sain. Fe ddylem allu gwneud sioe dda ohoni. Ewch ati ar unwaith i gynllunio a datblygu syniadau. Beth am roi cynnig arni erbyn diwedd Medi a bydd RAlun yn gwneud y trefniadau i gael benthyg yr offer technegol pan fydd gennym raglenni posib i'w ffilmio.

Dweud ei ddweud *... Yn ystod Gorffennaf bu'r gweinidog yn dweud ei ddweud ar Radio Cymru. Mae'r sgriptiau, a llawer o wybodaeth am yr eglwys, ar gael ar wefan Bethlehem:*

www.gwe-bethlehem.org/newyddion.html

TREFN Y SULIAU hyd ddiwedd RHAGFYR 2010

MEDI

5 Miss Eurwen Richards
12 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
19 Y Parchg. R. Allan Pickard
26 Y Parchg. R. Alun Evans

HYDREF

3 Y Parch Jeff Williams
10 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
17 Y Parchg. W.J. Edwards,
24 Y Parchg. R. Alun Evans
31 Y Parchg. Dafydd Owen

TACHWEDD

7 Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant
14 Y Parchg. John Heywood Thomas
21 Y Parchg. John Gwilym Jones
28 Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)

RHAGFYR

5 Ymweld â Chartre Henoed yn y bore.
9 Llith a Charol am 5yh
12 Gwasanaeth y Plant yn y bore
Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun) am 5yh
19 I'w Gadarnhau
25 Oedfa Bore Nadolig am 10yb
26 Y Parchg. R. Alun Evans

Newyddion

Dymunwn yn dda ... i **Vi Jones**, (Pentyrch), ar ôl ei thriniaeth ddiweddar.

... ac i **Dafydd Huws**, (Ffwrnes Blwm) – yntau wedi cael cwrs o driniaethau dros yr haf (ac wedi bod ar raglen Beti a'i Phobl).

Llongyfarchiadau ... i **Dyfan Rose**, mab Sandra a Stuart Rose, (Georgetown) ar ei briodas â Bethan Gaunt o Bentyrch. (Llun ar y dde) Mae Dyfan yn gweithio yn adran sain y BBC a Bethan yn athrawes yn un o ysgolion gynradd Cymraeg y ddinas.

... i **Manon Hefin,** merch Catrin a Hefin Mathias**, (**Yr Eglwys Newydd) ar ei phenodiad fel darlithydd mewn Ffrangeg yng Ngholeg Worcester, Rhydychen.

... i **Geraint Passmore**, (Radur) ar ei swydd fel athro yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân.

... i **June a Huw Lloyd**, (Radur) ar enedigaeth wyres – a chroeso i Nia Elisabeth!

... i **Cerith ac Eirlys Davies**, (Pentyrch) ar enedigaeth gor-ŵyr –croeso i Beau Constantine.

... i **Arwel a Margaret Ellis Owen**, Creigiau, ar ddod yn daid a nain eto. Ac i **Arwel** ar ei waith fel Prif Weithredwr dros-dro S4C – pob bendith ar y gwaith.

Cydymdeimlwn â'r canlynol ...

... teulu y ddiweddar **Joan Moody, Radur,** fu farw fis Awst. Bu ei hangladd yn yr amlosgfa ar Fedi 1af.

... **Stella Jones**, Yr Eglwys Newydd, ar golli ei hewythr yn y gogledd.

... **Joy Glyn,** Pentyrch, wedi colli ei brawd yng nghyfraith yn Sir Benfro.

... ein gweinidog, **R Alun Evans**, ar ôl colli merch ei gyfnither ym Meirionnydd.

Anfonwn ein cofion at ...

Margaret Oehler, Creigiau, sy'n nôl a mlaen yn y Gorllewin, lle mae ei thad angen sylw cyson.

TYMOR NEWYDD

Mae gen i go' disgrifio Sir Drefaldwyn rywdro fel "gwlad Mai a Medi"; gwlad oedd ar ei gorau yn y gwanwyn a'r hydref. Bu'n "orffen haf" bellach ers rhai wythnosau. Gobeithio i chi fwynhau'r haf a'i amrywiaeth o dywydd.

Ers tro, mae gwyddonwyr yn sylwi fod 'na fwy o eithafion yn perthyn i hinsawdd y byd. Fe welwn ninnau ei ôl yn y trychinebau yn Haiti, Pacistan, a China mewn llifogydd a thirgrynfeydd. Un o'r pethau a gododd fy nghalon i oedd fod Bethlehem wedi ymateb yn hael ac yn brydlon i'r apêl, trwy Gymorth Cristnogol, i helpu'r trueiniaid sydd wedi colli cymaint; colli eiddo, colli cartrefi, colli adnoddau, colli anwyliaid. Bendith ar Bethlehem am rannu'n cynhaeaf mor barod.

I'n plant mae hwn yn adeg o symud dosbarth, symud ysgol hyd yn oed. Buan iawn y bydda nhw'n cynefino gydag athrawon gwahanol, gwisg ysgol newydd o bosib ac amserlen a phynciau anghyfarwydd. Fe geisiwn ni'n gorau i wneud y profiad o ddod i'r capel yn her ac yn bleser i'r ifanc hefyd. Fe wn i'n dda fod yna bob math o atyniadau eraill ar fore Sul ac rwy'n gwerthfawrogi ymdrechion rhieni, ac ambell fam-gu a tha'cu, i ddod a'r plant i'r capel.

'Rhen blant, mae eich gweld yn dod i Fethlehem rhoi cymaint o bleser i mi. Bonws yw eich clywed yn adrodd adnodau a phenillion.

Bu'r profiad o wrando plant mewn gwahanol gapeli tros y blynyddoedd yn un y dylid fod wedi ei gofnodi yn fanwl. Dyma ambell atgof a erys. Plentyn wedi dweud adnod am y saith buwch dew a'r saith buwch denau. Minnau'n gofyn 'be ddwedwch chi am fwy nag un buwch'? Ateb 'bygars'! Dylanwad rhyw daid o ffermwr? Un arall yn gadael y sêt fawr cyn i mi ddod ato gan ddweud yn bwdlyd 'mae hwn'na wedi deud fy adnod i' [dyna'r fersiwn boleit o be ddwedodd e!].

Ydi, mae'n dymor newydd ac yn gyfle newydd i ni i ddod at ein gilydd i addoli Duw, y Mishdir; yn gyfle i fod wrth draed Iesu'r Athro. Gofiwch chi emyn y diweddar Ifor Rees, fu'n aelod yma am flynyddoedd:

Athro da, ar ddechrau'r dydd
dysg ni oll yng ngwersi'r ffydd
boed ein meddwl iti'n rhodd
a'n hewyllys wrth dy fodd.

R Alun

Canolfan Newydd Efail Isaf

Gan i ni fod yng nghwmni cyfeillion **Efail Isaf** dros fis Awst, mae'n werth nodi i'w Canolfan newydd (y festri ar ei newydd wedd) gael ei hailagor ar **Fedi 5ed** gydag oedfa ddathlu dan ofal Y Parch. Eirian Rees, a'r agoriad swyddogol gan un o gyn-feibion Mans y Tabernacl, y Dr Geraint Stanley Jones. Bu arddangosfa yn y Ganolfan drwy'r wythnos ac ar bnawn Sul, Medi 12fed, **Cymanfa Ganu** am 3.00 dan arweiniad Eilir Owen-Griffiths. Cyhoeddir llyfryn yn adrodd hanes y capel dan y teitl ***"Gwres yr Efail"*** i gyd-fynd â'r arddangosfa.

(Ac wrth gwrs, mae ôl gofal un o'n plith, Alwyn Harding Jones, Ffynnon Taf, ar y datblygiad newydd i gyd.)

Noson y Swper Haf

Lyndon Hallett, Cadeirydd Cymdeithas Motor Neurone Caerdydd a'r Fro, a'i ddirprwy, Sheena Sarjeant, ar noson cyflwyno siec Bethlehem tuag at yr elusen MNDA.

(Chwith isod): Plant yr Ysgol Sul yn cloi'r noson, a Megan fach yn seren yn y blaen! (Dde isod): Datganiad bendigedig gan Siwan Rhys, sydd wedi bod adref dros yr haf o'i hastudiaethau cerdd yn Llydaw.

(Chwith isod): Y ddeuawd "jôcs" (Dde isod): Ieu a Marged, grŵp "backing" diweddaraf Delwyn Siôn!